Bywyd Cudd y Bwlb



gan Athro'r Ardd

Pam fod bylbiau'n dew?

Mae bylbiau'n edrych yn **dew** am eu bod nhw'n llawn bwyd a dŵr.



Beth mae bylbiau'n ei wneud yn yr Hydref neu'r Gaeaf?

Maen nhw'n cysgu dand-daear dros fisoedd oer y gaeaf – ac yn aros i'r gwres ddod…



Beth mae bylbiau'n ei wneud yn y Gwanwyn?

Os yw'r bwlb yn meddwl ei bod hi'n ddigon cynnes y tu allan, mae'n dechrau bwrw gwreiddiau a blaguro.

Mae'r bwlb yn defnyddio'r bwyd y mae e wedi storio i dyfu i fod yn blanhigyn â dail a blodau.

Mae'r dail newydd yn gwneud mwy o fwyd i'r bwlb a'r blodau'n gwneud hadau.



Ar ddiwedd y Gwanwyn...

Mae'r planhigyn yn marw ac yn storio'i holl fwyd yn y bwlb yn barod at y gwanwyn nesaf!



"Clyfar ynte!"
Athro'r Ardd